CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION
HYDREF 2014

DYDDIAD	Nos Fercher, 22 Hydref
AMSER	7.00yh
LLEOLIAD	Ysgol Rhostryfan

1.	**Croeso** Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd
2.	**Yn Bresennol** Yn bresennol roedd Gwilym Ll Williams (GLLW Cadeirydd), Elwyn Jones (EJ), Nerys Evans (NE), Jason Hunt (JH), Tom Ellis (TE), Elin Evans (EE), Gwilym V Thomas (GVT). Hefyd yn bresennol roedd Bethan Williams (Clerc), Caryl Lewis (Clerc newydd)
3.	**Ymddiheuriadau** Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhys Owen (RO), Cyng. Aeron M Jones (AMJ) ac Michelle Williams (MW)
4.	**Datgan Buddiant** EJ yn datgan diddordeb yng nghais cynllunio 9 Dinas Cottages.
5.	**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf** Cofnodion mis Medi ddim ar gael gan fod gliniadur y Clerc wedi torri. **Bydd angen trafod cofnodion Medi yng nghyfarfod Tachwedd.**
6.	**Materion i'w trafod:** **a. Croesawu Clerc Newydd** Rhoddwyd croeso cynnes i'r clerc newydd, Caryl Lewis, bydd Caryl yn cymryd drosodd gan Bethan. Diolchwyd i Bethan am ei holl waith dros y blynyddoedd. **Bydd angen i Bethan drefnu mandate banc newydd.**
7.	**Derbyn Adroddiadau:** **Nerys Evans** Wedi derbyn llythyr cwyn di-enw a di-ddyddiad drwy blwch post. Llythyr yn cyfeirio at estyniad yn Heulfryn, Rhostryfan ac yn beirniadu'r Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd am ganiatau'r datblygiad. Y Cyngor Cymuned heb dderbyn cais cynllunio ar gyfer y datblygiad hwn a ddim yn ymwybodol ohono nes ei adeiladwyd. Yn anffodus, methu ymateb i'r llythyr cwyn gan ei fod yn ddi-enw**. Clerc i lythyru'r Adran Gynllunio yn tynnu sylw at y gwyn a holi os oedd cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar gyfer y datblygiad.** **Elin Evans** Tir yn ymyl Sain – datblygiad anferth wedi ei ganiatau, pryderon ynglyn a'i ddiogelwch oherwydd yr uchder ac ei fod ymyl llwybr cyhoeddus. Yn ol son, mae wedi ei ganiatau gan ei fod yn cael ei adnabod fel 'mobile home'. **Gofynnwyd i'r clerc wneud cais i Cyng. AMJ fynd ar ol y mater ac adrodd yn ol.**
8.	**Is-bwyllgorau** Dim materion i'w trafod
9.	**Materion Ariannol** Cyfri Cadw £18594.81 Cyfrif Siec £2030.72 **Taliadau:** a. Bethan Williams – cyflog Hydref & ad-daliad £652.67 b. Cyllid y Wlad Medi £98.40 c. llyfr fynwent - Llyfr wedi dod i ben, clerc wedi prynu un newydd £234 d. Wyn Williams – £2054 e. Siôn Owen – aros am fil

	f. Caryl Lewis - £497.97 offer newydd TG a printer i'r clerc newydd g. North Wales Crop Spraying - £246 am y gwaith o ladd japanese knotweed Rhostryfan
10.	**Materion Cynllunio** C14/0936/24/HY– Byw Bywyd – Lleoli arwydd newydd **Dim sylw** C14/0962/24/LL – Isfryn, Rhosgadfan - Dymchwel rhan o'r ty presennol a chodi estyniad newydd yn ei le (cynllun diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd o dan gais rhif C14/0088/24/LL) **Dim sylw** C14/0905/24/LL – Ystad Fron Deg, Rhostryfan - creu man parcio ar gyfer 4 car ynghyd a chodi ffens diogelwch **Dim sylw** C14/0921/24/LL – 9 Dinas Cottages, Dinas - Codi modurdy domestig **Dim sylw** C14/0983/24/YA – Fron Wydr, Rhosgadfan – codi sied amaethyddol **Gofynnwyd os oes bosib adeiladu'r sied yn agosach at y ty? Clerc i nodi'r sylw ar system electroneg Cyngor Gwynedd.**
11.	**Gohebiaeth:** a. Cylchgronnau Cynllun Lletya Pobl Hyn – Llythyr wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn gwahodd y Cyngor Cymuned i wneud sylwadau erbyn dydd gwener 24/10/11 Cynllun Mynyddoedd Mawr – Nodwyd fod y Cyngor Cymuned yn ei gefnogi, **clerc angen gyrru ymateb**
12.	**Materion Eraill ac Materion Mis Nesa** **a. NE - Man gwylio adar Foryd bach –** safle yn fler ofnadwy, llythyr wedi ei yrru at Cyngor Gwynedd ond angen mynd ar ol y mater eto, **Bethan i dyrchu'r llythyr allan.** **b. EE** - Er gwybodaeth mae Urdd wedi dechrau yn Llandwrog i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9. **c. JH** - Lamp stryd ar llwybr Bro Wyled Rhostryfan (ar draws yr afon i'r brif ffordd) angen ei drwsio. **d. GLLW - Gwteri –** angen glanhau rhai Rhostryfan i gyd, enwedig yr un sydd dros y ffordd i'r fynwent. **e. Hysbysfwrdd –** Cwyn fod y wybodaeth yn un Rhos Isaf wedi dyddio. **f. Torri gwrychoedd –** angen gwneud rhai Rhostryfan a Rhosgadfan **g. EE - Helicopter yn hedfan yn isel uwchben tai yn y nos -** yn achosi pryder **h. GVT –** Ffilmio ar gyfer ffilm 'Bolwood' – heddlu ayb wedi eu hysbysu o flaen llaw y byddai saethu ond eto wedi gyrru helicopter yno i ymchwilio'r swn, wast o adnoddau. **i. TE** - Camfa Ffordd newydd ochr Hendre (rhwng Goat Llanwnda a Groeslon) wedi torri. **j. GLLW - Rhos Isaf –** Dwr yn dod i'r lon rhwng Llyn Efydd a Ty'n Ffynnon. **k.** Gofynnwyd i'r agenda a cofnodion gael eu gyrru drwy'r post i GLlW a GVT o hyn allan. Mae TE eisoes yn derbyn drwy'r post. **l. Sedd Wag Rhosgadfan –** GVT am holi ac adrodd yn y cyfarfod nesaf, mae aelod o'r gymuned wedi datgan diddordeb. **m.** Penderfynwyd i beidio a chynnal cyfarfod ym mis Rhagfyr gan ei fod mor agos at y nadolig ac mae'n bur debyg y bydd nifer o ymddiheuriadau.
13.	**Daeth y cyfarfod i ben am 8:30yh**